FFUGENW- YSBRYD COLL

ADRAN B- BLYNYDDOEDD 9 & 10

STORI YSBRYD AR GYFER Y GAEAF

Adran B- Blynyddoedd 9 a 10

# Y Daith i'r Gampfa Gwyllt

Dwy ferch, chwiorydd sydd hefyd fel ffrindiau. Heulwen sy'n ddeuddeg oed. Haf sy'n unarddeg oed. Chwiorydd sydd yn gweld eu hunain fel ffrindiau. Merched yn ymchwilio gampfa sydd yn dywyll ac yn iasol.

Mae'n ddydd Calan Gaeaf, mae popeth wedi'i addurno yn barod at heno. Ond, gwelodd y merched ar ôl ysgol bod y gampfa gyferbyn neuadd yr ysgol, yn edrych yn wahanol I'r arfer; y glaswellt wedi torri, y giât ar agor, y drws gyda chael y clo wedi torri ffwrdd. Mae rhywbeth yn digwydd, ond beth??

Mae Heulwen yn aros tu allan i'r ysgol yn aros am Haf i ddod allan fel y gallen nhw cerdded allan gyda'i gilydd, ond mae Haf yn cymryd oesoedd i ddod allan o gatiau'r ysgol. Mae Heulwen yn edrych dros y ffordd tuag at y gampfa, yn gweld rhywbeth yn bod. Mae'r giât ac mae rhywun tu fewn giât y gampfa ond mae rhywbeth yn bod. Mae drws y gampfa ar agor. O'r diwedd mae Haf yn dod allan o'r ysgol. Mae Heulwen yn sgwrsio gyda Haf am bopeth mae hi wedi sylweddoli. Wedyn dyma lygaid Haf yn goleuo i fyny.

"Beth ti'n meddwl Haf? Dwi'n gwybod ti'n meddwl am rywbeth." mewn llais, nad ydy hi'n gwybod os ydy'r peth yn dda neu ddrwg.

" Heul, ddylen ni mynd i aros yn y gampfa a gweld os beth mae pawb yn dweud yn yr ysgol yn wir neu ddim", dwedodd Haf mewn llais o ddifri.

" Haf, beth ydyn nhw'n dweud am y lle? A phaid â thi bod o ddifri, ti'n gweld y lle na", mae Heulwen yn dweud gydag ofn yn ei llais.

" Wrth gwrs dwi o ddifri, pryd yn y ddaear nad ydw i o ddifri", eisiau profi pwynt.

Wrth i Heulwen a Haf cyrraedd adre, mae'n nhw'n brysio fyny staer i feddwl os ydyn o ddifri am beth drafodwn nhw. Gorweddodd Heulwen ar ei wely yn edrych fyny ar y to tra siarad gyda Haf am bopeth. Pan mae Heulwen yn mynd yn dawel am ryw pum munud. Mae Haf yn poeni am Heulwen achos dydy hi ddim yn stopio siarad am rywbeth sy'n digwydd os nad ydy rhywbeth yn bod.

"Heul beth sy'n bod? Ti'n nerfus neu be?"

"Dwi'n iawn", mae Heulwen yn dweud wrth godi o'r gwely a symud lawr staer tuag at y stafell fyw.

Mae Haf yn eistedd yn y llofft yn ysgrifennu popeth y gallen wneud i wneud y syniad o aros dros nos yno i fod y syniad da. Mae gan Haf syniad, i dwyllo Heulwen a hefyd ei chwytho hi. Haf yn codi ei ffon ac adio sawl person i grŵp o'r enw Chwytho Heul. Mae'n tecstio y grŵp yn dweud ' Rydw i a Heulwen yn mynd i aros yn y Gampfa sy'n gyferbyn yr ysgol, jyst am hwyl. Dwi eisio chwytho hi ac felly mae gen i syniad, pawb yn y grŵp yma i fynd i'r Gampfa erbyn wyth o'r gloch dim cynharach, gwneud synau, a chnocio, a tharo, jyst gwneud sawl peth i wneud hi'n ofn, ond stopio o gwmpas unarddeg felly mae'n meddwl ei fod o wedi stopio. Mae pawb yn cytuno a chwbl mae Haf angen gwneud rŵan ydy cael Heulwen i gytuno ar gyfer y peth, sef aros yn y Gampfa dros nos. Ar ôl llawer o wthio i Heulwen ddod, mae'n dweud:

"Byddai'n dod os ydw i'n cael gadael unrhyw amser dwi eisiau, ac os ydw i'n ofni dwi'n gadael".

Mae Haf yn rhedeg i fyny'r staer i'r llofft a phacio blancedi, a chlustogau, sachau cysgu, a dillad cynnes, a sanau sbâr, a digonedd o fwyd i bara am oesoedd, digonedd o ddŵr i bara am oesoedd a gemau ar gyfer gadw nhw'n brysur trwy'r nos.

Ar ôl iddyn nhw bacio, cerddon nhw i lawr y ffordd tuag at y gampfa, mae'r giât ar agor ar ddrws yn gul agored. Cerddon nhw i fewn, ac wrth i'r

drws agor mae'n creu sgrech uchel o gornel y drws. Camodd nhw i fewn ar llawr yn gwneud synau cracio o danyn. Daethon nhw le i rhoi eu pethau i lawr.

Cwpl o oriau wedyn, o gwmpas chwech o'r gloch, mae nhw'n penderfynu i fwyta felly mae nhw gallu mynd i gwely yn eithaf gynnar er mwyn i'r noson mynd yn gyflymach. Mae'n nhw'n bwyta eu bwyd a siarad tra bwyta. Erbyn yr amser yma, does dim byd ofnus wedi digwydd, dim byd ond y llawr yn gwichlyd ar sŵn o'r drws pan agoron nhw'r drws yn y cychwyn. Roedden nhw'n chwarae gemau cardiau pan........

Y gwynt yn chwythu'n gryf. Gallen clywed y coed yn ysgwyd, cerrig tu allan yn symud, y drws yn clepian gan nad ydy yn gallu cau yn llawn. Teimlo'n nhw y gampfa yn ysgwyd. Gwynt yn pwerus yn chwyrli. Mae wyth or gloch yn troi fyny, mae'r gwynt yn cryfhau, glaw yn cychwyn, glaw drwm sy'n clecian ar y to ar ffenestri. Mae'r ffrindiau yn cychwyn cyrraedd ac yn taflu cerrig yn cnocian yn erbyn y drws ac yn rhedeg i ffwrdd

Mae Heulwen yn dweud, " dwi'n mynd gartref, dwedais wrtha ti os ydy unrhywbeth yn digwydd dwi'n gadael".

" Heul, mae'n bwrw glaw yn drwm wan, a doson ni ddim cotiau" dwedodd Haf i trio cael Heulwen i meddwl dros popeth a chael hi i aros yn hirach.

" O ie, oedden ni ddwy yn dwp yn ddim dod a cot glaw gydan ni oherwydd doedd neb di edrych ar y tywydd" dwedodd Heulwen mewn llais llawn dicter.

Mae ddwy ohonyn yn eistedd yna ddim yn siarad achos bod y ddwy heb edrych ar y tywydd neu ddod a cot law a roedd hynny arnyn nhw. Cwpl o munudau wedyn roedd clec mawr yn dod o tu fewn i'r gampfa. Steddodd Heulwen yn syth fyny a symudodd Haf yn agosach at Heulwen. Sibrydodd Haf i Heulwen:

"Dwi'n mynd i chwilio beth oedd hynny, oherwydd dwi'm yn siwr pwy sydd ma."

"Na paid, jyst i bod yn siwr bod ni ddwy yn ddiogel " dwedodd Heulwen gydag ofn.

Mae'r ddwy ferch yn aros yn sownd gyda'i gilydd ddim un yn symud o gwbl. Mae'r ddwy yn aros fel hyn am dros awr yn aros ac yn aros am rhywbeth i ddigwydd fel ; y glaw yn llacio, y sŵn yn stopio, y gwynt yn stopio rhuo, unrhywbeth i wneud y funudau yma i theimlo llai ofnus.

O gwmpas canol nos, mae'n dal i fynd ond, mae'r merched yn penderfynu i moen eu pethau cysgu, i rhoi nhw allan, ac i trio cysgu, hyd yn oed os nad ydy yn hir. Mae'r ddwy yn gorwedd yn eu sachau cysgu gyda eu chlustogau a'i blancedi yn gwrando i'r sŵn o popeth yn digwydd tu allan. Erbyn hyn mae'r ffrindiau o'r grwp wedi bod a na ddylse unrhyw sŵn ddigwydd o wan ymlaen.

Mae'r merched yn cychwyn cwympo i gysgu yn trio torri allan y sŵn o'r glaw ar gwynt sy'n creu sŵn ar do'r gampfa. Cwpl o oriau wedyn, mae synau mawr yn digwydd ar ffenestri'r gampfa. Mae Heulwen yn deffro ac yn codi Haf allan o ofnder.

"Haf, Haf, Haf, mae rhywun neu rhywbeth tu allan." dwedodd Heulwen gyda pryder yn ei llais.

Mae Haf yn codi ac yn ofn pan mae'r ddwy yn clywed sŵn mawr yn dod o'r to. Sŵn sy'n swndio fel crafu. Mae'r ddwy yn dal eu gilydd yn dynn, ddim yn gadael fynd am dim byd. Erbyn hyn mae'n 4 or gloch yn y bore. Mae'n dal i fod yn pygddu. Mae'r gwynt wedi stopio o'r diwedd ond mae'r glaw dal i fynd.

Am y cwpl oriau wedyn mae'r ddwy yn dal eu gilydd tan mae'n digon olau i fynd adre. Mae'n nhw'n aros am oriau ac oriau. Tan mae o gwmpas 7 o'r gloch, mae'r ddwy yn hel eu pethau yn eitha gyflym, pan.....

Mae sŵn mawr yn dod o'r tywyllwch, sŵn rhuo, llawn ddychryn yn dod tu holyn nhw. Mae'r merched yn agor y drws yn gyflym ac yn trio rhedeg o'r gampfa gyda'i bagiau ar eu cefnau.

Ar ôl dod allan o'r giât ac yn sicrhau bod beth bynnag sydd tu fewn i'r gampfa ddim yn dod allan. Mae'r merched yn rhedeg allan nerth eu draed, fyny'r rhiw tuag at adre.

Wrth edrych nol ar y gampfa does dim byd yn bod, dim byd ond dychymyg.